# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Mai 2023

Amser: 09.00 - 09.41

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Cyhoeddi Cynllun Gweithredu (Cyfnod 1) Adroddiad y Grŵp Arbenigol (30 munud)~~ *Gohiriwyd*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn trafodion Cyfnod 3 y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm.

Cadarnhaodd y Llywydd y bydd egwyl fer yn cael ei chymryd cyn dechrau trafodion Cyfnod 3 i hwyluso'r paratoadau terfynol, ac y bydd y gloch yn cael ei chanu 5 munud cyn ailddechrau trafodion.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 23 Mai 2023**

- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Ddeddf Trefn Gyhoeddus – Goblygiadau i Gymru (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Mehefin 2023**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Datblygu Economaidd yng Nghanolbarth Cymru (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Adolygiad o Gysylltiadau Addysg â Chyflogwyr (30 munud)

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

Nododd y Llywydd y bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion Dadl Aelodau ar gyfer 14 Mehefin yn disgyn yn ystod toriad hanner tymor mis Mai, er mwyn darparu ar gyfer dwy Ddadl Aelodau i gael eu cynnal y tymor nesaf.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Y Bil Seilwaith (Cymru) - amserlen

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith er mwyn trafod yr egwyddorion cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ohirio penderfyniad ar yr amserlen ar gyfer y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor hwnnw a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch cais i ymgymryd â busnes y Pwyllgor yng Nghaeredin a Barcelona

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai adael y Cyfarfod Llawn yn fuan ar 7 Mehefin er mwyn ymgymryd â busnes y Pwyllgor yng Nghaeredin. Cytunodd y Pwyllgor hefyd â chais i Mabon ap Gwynfor AS beidio â bod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 a 7 Mehefin oherwydd ei bresenoldeb yn yr Ŵyl Tai Cymdeithasol Ryngwladol yn Barcelona fel rhan o waith y Pwyllgor ar Gyflenwadau Tai Cymdeithasol.

## 6 Ymgysylltu ag Ewrop

### 6.1 Gohebiaeth am Gyngres Cyngor Ewrop

Trafododd y Pwyllgor Busnes fater parhaus enwebiadau'r Senedd ar gyfer cynrychiolwyr ar Gyngres Cyngor Ewrop. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod dilynol.

## 6 Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd Darren Millar a oes ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i drefniadau busnes y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn yng ngoleuni gwaharddiad parhaus Rhys ab Owen AS o Grŵp Plaid Cymru. Nododd y Llywydd y byddai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y mater hwn ymhellach ochr yn ochr ag unrhyw oblygiadau sy'n codi yn deillio o ystyriaeth y Senedd o'r cynnig i sefydlu Pwyllgor Senedd yn ystod y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma.